

Pwysigrwydd Amgylchedd sy'n Galluogi Iaith

Arsylwadau yn New International School of Japan

Prosiect Tokyo Astudiaeth Achos 3

Blackmore, R., Childs, D., Powles, A., Soper, C., Stokes, M. a Williamson-Dicken, M, Phillips, N., (2025)

Yn ystod ymweliad Prosiect Tokyo â New International School of Japan, daeth yn amlwg fod amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn llawer mwy na lle ffisegol; mae'n sylfaen iethyddol ddeinamig ar gyfer tyfu, darganfod, a datblygiad holiadaidd dysgwyr. Felly, mae'r astudiaeth hon yn archwilio arwyddocâd egwyddorion addysgegol yr arsylwyd arnynt ar waith, gan gynnwys dysgu aml-oedran, dwyieithrwydd, cydnerthedd, cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn, trawsieithu, a sgaffaldu. Mae pob un o'r elfennau hyn yn cyfrannu at greu lleoliadau addysgol cynhwysol ac ymatebol lle mae dysgwyr yn cael eu hannog i dynnu ar eu dewis llawn o adnoddau iethyddol a gwybyddol.



Mae ffrâm ddamcaniaethol yr astudiaeth achos hon yn tynnu ar waith nifer o ysgolheigion blaenllaw. Mae Rosemary Erlam, ymchwilydd blaenllaw ym maes caffael ar ail iaith ac addysg athrawon yn Seland Newydd, wedi dangos sut y gall amgylcheddau ystafell ddosbarth a methodolegau cyfarwyddyd, gefnogi dysgwyr ieithoedd ychwanegol. Mae ei gwaith yn tynnu sylw at bwysigrwydd dylunio addysgegol wrth lunio canlyniadau i ddysgwyr amlieithog. I ategu at y persbectif hwn, mae Ofelia García, ysgolhaig Ciwba-Americanaidd sy'n enwog am ei chyfraniadau arloesol at addysg ddwyieithog a thrawsieithu, yn gosod arferion iaith fel offerynnau trawsnewidiol sy'n dilyn hunaniaeth dysgwyr ac yn gwella mynediad at wybodaeth.

Yn ogystal, mae damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol Lev Vygotsky yn cynnig lens feirniadol ar gyfer deall datblygiad iaith. Mae ei gysyniad o'r Parth Datblygu Procsimol (ZPD) yn dangos sut y mae dysgwyr yn caffael ar iaith fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu harwain gan athrawon neu gyfoedion mewn amgylcheddau wedi'u sgaffaldu. Gyda'i gilydd, mae'r safbwyntiau hyn yn goleuo'r ffordd y gall ystafelloedd dosbarth weithredu fel mannau trawsnewidiol sy'n meithrin cydnerthedd a dwyieithrwydd ac sy'n grymuso dysgwyr trwy gymorth trawsieithu a chydweithio.

Dulliau Addysgegol Amgylcheddol a Datblygiad Iaith

Dysgu Aml-oedran

Mae addysg aml-oedran yn darparu cyd-destun unigryw ar gyfer caffael ar iaith, trwy leoli dysgwyr o fewn grwpiau mwy hyblyg lle mae mewnbwn ac allbwn iethyddol yn naturiol amrywiol. Mewn ystafelloedd dosbarth o'r fath, mae dysgwyr iau yn agored i eirfa, strwythurau disgwrs, a normau pragmatig sy'n fwy datblygedig, wrth ryngweithio â chyfoedion hŷn. I'r gwrthwyneb, mae dysgwyr hŷn yn atgyfnerthu eu gwybodaeth iethyddol trwy fodelu, esbonio ac ailadrodd cysyniadau ar gyfer cyd-ddisgyblion iau. Mae'r cyfnewidiad cilyddol hwn yn adlewyrchu Theori Parth Datblygu Procsimol Vygotsky, lle mae sgaffaldu'n digwydd trwy gydweithio rhwng cyfoedion (cymdeithasol) yn ogystal ag arweiniad athrawon. Gall y model aml-oedran hefyd leihau pwysau disgwyliadau sy'n seiliedig ar oedran, gan greu hinsawdd lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth arbrofi â ffurfiau iethyddol newydd. Mae cymryd risg, sy'n elfen hanfodol o gaffael ar iaith, yn cael ei annog oherwydd bod dysgwyr yn gweld camgymeriadau fel rhan o daith ddatblygiadol a rennir yn hytrach na fel diffygion personol. Felly,

mae ystafelloedd dosbarth aml-oedran yn New International School of Japan yn gymunedau ieithyddol deinamig lle mae twf iaith yn cael ei gyflymu trwy ymarfer dilys, sydd wedi'i sefydlu'n gymdeithasol.

Yn ystod ymweliad y tîm â New International School of Japan, arsylwodd Dirprwyaeth Cymru yn uniongyrchol ar weithredu addysg aml-oedran gan nodi pa mor effeithiol yr oedd y model addysgegol hwn yn gweithio yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth. Gwelodd y ddirprwyaeth amgylchedd ffyniannus lle anogwyd plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau heb ofni cael eu beirniadu. Dangosodd dysgwyr gydnerthedd trwy roi cynnig ar dasgau yn hyderus, gan ddangos fawr ddim oedi na phryder ynghylch gwneud camgymeriadau. Roedd y parodrwydd hwn i "roi cynnig arni" yn adlewyrchu hinsawdd ystafell ddosbarth a oedd yn normaleiddio arbrofi ac yn sefydlu camgymeriadau fel rhan o daith ddysgu ar y cyd.

Sylwodd y ddirprwyaeth ymhellach fod y strwythur aml-oedran yn hwyluso datblygiad perthnasoedd a chyfeillgarwch ystyrlon ar draws grwpiau oedran. Roedd plant yn rhyngweithio'n hyblyg â chyfoedion o oedrannau gwahanol, a chyfrannai hyn at ymdeimlad o gynhwysiant ac o fod yn gyffyrddus. Roedd y ddeinameg hon yn cefnogi integreiddio cymdeithasol a hefyd yn atgyfnerthu gwerth addysgegol addysg aml-oedran fel offeryn ar gyfer meithrin cydweithio, empathi a chefnogaeth gilyddol.

Dwyieithrwydd

Mae natur ddwyieithog New International School of Japan yn amlwg yn ei hamgylchedd ffisegol a'i dylunio addysgegol. Mae adnoddau ac arteffactau yr ystafell ddosbarth yn cael eu labelu'n gyson yn Saesneg a Japaneeg, gan atgyfnerthu geirfa mewn ffordd weledol a chyson yn y ddwy iaith. Mae'r cyfarwyddyd yn newid rhwng Saesneg, Japaneeg, neu ddulliau cyfunol, gan sicrhau bod dysgwyr yn dod ar draws y ddwy iaith mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae'r dyluniad hwn yn cefnogi caffaeliad iaith trwy sefydlu dwyieithrwydd mewn arferion bob-dydd, a thrwy hynny normaleiddio'r defnydd o sawl iaith.

Mae ymchwil Rosemary Erlam yn tanlinellu manteision academiaidd a diwylliannol amgylcheddau o'r fath, gan ddadlau bod dwyieithrwydd yn galluogi dysgwyr i lwyddo yn iaith y cyfarwyddyd a chadw'u hunaniaeth o ran treftadaeth ar yr un pryd. Mae fframwaith trawsieithu Ofelia García yn ategu at hyn trwy leoli dwyieithrwydd fel repertoire deinamig yn hytrach na dwy system ar wahân. Mae dysgwyr yn tynnu'n hyblyg ar y ddwy iaith i ffurfio ystyr, a thrwy hynny'n dyfnhau eu dealltwriaeth ac yn cyflymu eu gallu i gaffael. Gyda'i gilydd, mae'r safbwyntiau hyn yn tynnu sylw at y ffordd y mae ystafelloedd dosbarth dwyieithog yn meithrin ymwybyddiaeth feta-ieithyddol a hyblygrwydd gwybyddol, ac yn cadarnhau hunaniaeth. Yn ymarferol, mae ethos dwyieithog yr ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn caffael ar gymhwysedd ieithyddol a hefyd yn datblygu'r hyder i ffeindio'u ffordd trwy sawl byd ieithyddol ar yr un pryd.

Arsylwodd Dirprwyaeth Cymru fod yr holl adnoddau yn New International School of Japan wedi'u labelu ddwywaith - yn Saesneg a Japaneeg. Roedd yr arfer hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth ffeindio'u ffordd yn y ddwy iaith, heb i'r naill na'r llall gael blaenoriaeth dros y llall. Roedd amgylchedd o'r fath yn atgyfnerthu dwyieithrwydd fel norm a rennir ac yn rhoi cymorth gweledol cyson ar gyfer caffael ar eirfa ar draws ieithoedd.

Wrth arsylwi gwers, nododd y ddirprwyaeth fod iaith y cyfarwyddyd yn ddwyieithog. Cydweithiai athrawon yn rhwydd, gan newid rhwng y Saesneg a'r Japaneeg mewn ffordd a oedd yn caniatáu i'r ddwy iaith lifo'n ddiymdrech trwy gydol y wers. Roedd y dull hwn yn gymorth i ddysgwyr i ddeall yr ystyr ar draws cyd-destunau ieithyddol, a hefyd yn modelu integreiddio naturiol cyfathrebu dwyieithog.

O safbwynt addysgeg, mae'r arferion hyn yn dangos sut y gellir sefydlu addysg ddwyieithog mewn arferion bob-dydd ac yn yr amgylchedd, mewn ffyrdd sy'n normaleiddio amlieithrwydd ac yn meithrin hyder. Roedd y ddirprwyaeth yn cydnabod y byddai strategaethau o'r fath yn gallu cael eu trosglwyddo i'w hysgolion eu hunain, lle gallai labelu dwyieithog, addysgu ar y cyd, a chreu hinsawdd gefnogol yn yr ystafell ddosbarth gryfhau ymarfer dwyieithog. Mae'r arsylwadau hyn yn cadarnhau natur bwrpasol addysgeg ddwyieithog, gan dynnu sylw at ei rôl wrth hyrwyddo cymhwysedd ieithyddol, ymwybyddiaeth feta-ieithyddol, a hyder dysgwyr.

Cydnerthedd

Mae cysylltiad agos rhwng cydnerthedd yn yr ystafell ddosbarth a datblygiad iaith. Mae dysgwyr sy'n cael eu hannog i gymryd risgiau gyda geirfa, strwythurau gramadegol ac ynganiad anghyfarwydd, yn dysgu deall bod camgymeriadau yn rhan annatod o'r broses ddysgu. Mae'r amgylchedd diogel hwn yn lleihau gorbryder ieithyddol ac yn meithrin parodrwydd i arbrofi, sy'n hanfodol wrth gaffael ar iaith. Pan fydd dysgwyr yn neidio'n ôl ar ôl camgymeriadau, gydag adborth cefnogol, maent yn mewnoli ffurfiau ieithyddol yn ddyfnach, gan atgyfnerthu cywirdeb a rhuglder.

O bersbectif cymdeithasol-ddiwylliannol, mae cydnerthedd yn cael ei feithrin pan fydd dysgwyr yn cael eu sgaffaldu i roi cynnig ar dasgau sydd ychydig y tu hwnt i'w gallu ar y pryd. Wrth ddysgu iaith, mae hyn yn golygu cael eich herio'n gyson i ehangu geirfa, mireinio cystawen, a chymryd rhan mewn disgwrs estynedig ar yr un pryd. Mae'r cylch ailadroddus o dreialu, gwneud camgymeriadau a llwyddo yn cryfhau cymhwysedd ieithyddol wrth feithrin hyder. Felly, mae cydnerthedd yn adnodd seicolegol ac ieithyddol, ac yn galluogi dysgwyr i ddyfalbarhau yn wyneb heriau cyfathrebu ac yn y pen draw dod yn fwy hyfedr.

Fe fu Dirprwyaeth Cymru yn arsylwi ar yr egwyddorion hyn ar waith yn ystod eu hymweliad â New International School of Japan. Yn amgylchedd naturiol yr ystafell ddosbarth, gwelwyd bod plant yn ffynnu ac yn dod yn fwy cydnerth bob dydd. Roedd dysgwyr yn cymryd rhan yn hyderus mewn tasgau ieithyddol, gyda chefnogaeth hinsawdd a oedd yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn rhydd o feirniadaeth. Mewn amgylcheddau o'r fath, roedd plant yn barod i ddyfalbarhau gan ddangos bod cymryd risg yn cael ei dderbyn ac yn fwy na hynny yn cael ei ddathlu fel rhan o'r daith ddysgu. Roedd yr awyrgylch hwn yn caniatáu i ddysgwyr ffynnu, gan atgyfnerthu'r syniad bod cydnerthedd yn cael ei feithrin trwy gyd-destunau cefnogol, dwyieithog ac aml-oedran lle mae camgymeriadau yn cael eu hail-fframio fel cyfleoedd i dyfu.

Cwricwlwm sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn gosod diddordebau, hunaniaeth ac anghenion datblygiadol dysgwyr wrth wraidd y cyfarwyddyd. Mae'r cyfeiriadedd hwn yn arbennig o bwerus ar gyfer caffael ar iaith oherwydd mae'n sicrhau bod mewnbwn ieithyddol yn ystyrlon ac yn berthnasol. Pan fydd dysgwyr yn ymgysylltu â phynciau sy'n debyg i'w profiadau, mae ganddynt fwy o ysgogiad i gymryd rhan mewn deialog estynedig, holi cwestiynau, a thrafod ystyr. Mae defnyddio iaith mewn ffordd ddilys fel hyn yn cyflymu caffaeliad trwy sefydlu ymarfer ieithyddol mewn cyd-destunau sy'n bwysig i ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn dod ar draws ffurfiau ieithyddol sy'n ymestyn eu galluoedd ac yn dal i fod hygyrch, ac mae hynny'n hyrwyddo twf cyson geirfa, cystawen a chymhwysedd i gyfathrebu. Mae cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn, felly, yn creu amodau lle nad yw dysgu iaith yn rhywbeth haniaethol nac yn orfodol ond yn hytrach wedi'i sefydlu mewn profiadau pwrpasol, sy'n cadarnhau hunaniaeth.

Arsylwodd Dirprwyaeth Cymru ar yr egwyddorion hyn ar waith yn ystod gwersi yn New International School of Japan. Nodwyd bod y dysgu yn cael ei arwain gan blant yn bennaf, gyda chyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am eu dysgu eu hunain. Roedd y dull cyfranogol hwn yn grymuso plant i gymryd perchnogaeth dros eu taith addysgol, gan atgyfnerthu cymhelliant ac ymgysylltiad. Trwy leoli dysgwyr fel cyfranwyr gweithredol yn hytrach na derbynwyr goddefol, creai'r ysgol hinsawdd lle roedd datblygiad iaith yn bersonol ac yn gymdeithasol ystyrlon.

Trawsieithu

Mae arferion trawsieithu yn ganolog i ddyluniad addysgegol yr ysgol, ac yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu repertoire ieithyddol llawn i wneud synnwyr o gysyniadau newydd. Yn hytrach na chyfyngu dysgwyr i un iaith, mae trawsieithu yn cyfreithloni symudiad hyblyg rhwng ieithoedd, gan alluogi dysgwyr i sgaffaldu dysgu newydd trwy adnoddau ieithyddol cyfarwydd. Mae gwaith García yn tynnu sylw at y ffordd y mae trawsieithu yn dilysu hunaniaeth ac yn gwella dealltwriaeth, ac mae'n ei osod fel arfer trawsnewidiol mewn addysg ddwyieithog. Roedd trawsieithu yn New International School of Japan yn naturiol ac yn ddiymdrech. Roedd yr arfer hwn yn digwydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a oedd yn rhoi anogaeth weithgar i gymryd risg ac arbrofi gydag iaith.

Wrth gaffael ar iaith, mae trawsieithu yn cyflymu datblygiad geirfa, yn cryfhau eglurder cysyniadol, ac yn meithrin ymwybyddiaeth feta-ieithyddol. Gall dysgwyr ffurfio ystyr trwy eu hiaith gryfach ac yna trosglwyddo'u dealltwriaeth at yr iaith darged, a thrwy hynny ddyfnhau eu gallu i gadw'u cymhwysedd wrth gyfathrebu, a'i ehangu. Yn yr ystafelloedd dosbarth yr arsylwyd arnynt, nid oedd trawsieithu yn cael ei thrin fel strategaeth wrth gefn ond fel dewis addysgegol bwriadol a oedd yn grymuso dysgwyr i feithrin gwybodaeth ar y cyd. Mae'r arfer hwn yn tanlinellu'r egwyddor fod caffael ar iaith fwyaf effeithiol pan ganiateir i ddysgwyr dynnu'n hyblyg ar yr holl adnoddau ieithyddol sydd ar gael iddynt.

Sgaffaldu

Sgaffaldu yw asgwrn cefn addysgeg caffael iaith. Mae athrawon a chyfoedion yn rhoi cymorth strwythuredig (er enghraifft modelu geirfa, aralleirio brawddegau, cynnig promptiau) ac mae hyn yn lleihau'n raddol wrth i ddysgwyr ddod yn annibynnol. Mae'r broses hon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â Theori Parth Datblygu Procsimol Vygotksy, lle mae dysgwyr yn cyflawni canlyniadau ieithyddol y tu hwnt i'w galluoedd uniongyrchol gyda'r arweiniad priodol.

Wrth ddysgu iaith, mae sgaffaldu yn sicrhau bod dysgwyr yn cael mewnbwn dealladwy tra'n cael eu cefnogi i gynhyrchu allbwn sy'n ymestyn eu galluedd. Gydag amser, mae cael gwared ar sgaffaldau yn meithrin ymreolaeth, rhuglder a hyder. Yn yr ystafelloedd dosbarth yr arsylwyd arnynt, roedd sgaffaldau yn amlwg yng nghwestiynu athrawon, wrth gydweithredu â chyfoedion, ac wrth ddylunio adnoddau, a phob un o'r elfennau hyn yn creu amgylchedd haenog lle'r oedd twf iaith yn barhaus ac yn fwriadol. Trwy sefydlu sgaffaldu mewn ymarfer dyddiol, mae'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn hyrwyddo'u cymhwysedd ieithyddol yn gyson o fewn fframweithiau strwythuredig, cefnogol. Cefnogai athrawon y syniad o broses ailadroddus o brofi, gwneud camgymeriadau, a llwyddo, ac roedd hyn yn enghraifft o'r ffordd y mae cydnerthedd cymdeithasol a chydnerthedd ieithyddol yn cael eu hadeiladu trwy gyfathrebu mewn ffordd ryngweithiol a dysgu ar y cyd, i hyrwyddo hyfedredd ymhellach.

Mae'r arferion hyn yn cyd-fynd yn agos â fframwaith trawsieithu Ofelia García, sy'n gosod dwyieithrwydd fel repertoire deinamig yn hytrach na dwy system ar wahân. Yn yr ystafelloedd dosbarth yr arsylwyd arnynt, tynnai'r dysgwyr yn hyblyg ar y Saesneg a'r Japaneeg i ffurfio ystyr, negodi dealltwriaeth, a chefnogi ei gilydd. Roedd yr amgylchedd lle gwelwyd trawsieithu yn hwyluso dealltwriaeth a hefyd yn atgyfnerthu cydnerthedd, gan fod plant yn cael eu grymuso i ddefnyddio'u holl adnoddau ieithyddol heb ofni gwneud camgymeriadau na chael eu beirniadu.

Casgliad

Mae'r amgylchedd sy'n galluogi iaith yn New International School of Japan yn dangos bod caffael ar iaith yn cael ei feithrin fwyaf effeithiol o fewn mannau addysgegol cynhwysol, deinamig a ddyluniwyd yn ofalus. Mae dysgu aml-oedran yn meithrin sgaffaldau cilyddol, gan alluogi dysgwyr i gaffael ar ffurfiau ieithyddol newydd trwy gydweithio a mentora rhwng cymheiriaid. Mae dwyieithrwydd, sydd wedi'i ymgorffori yn ffabrig ffisegol ac addysgol yr ysgol, yn cadarnhau hunaniaeth ddiwylliannol wrth ehangu hyblygrwydd gwybyddol. Mae cydnerthedd yn cael ei feithrin wrth i ddysgwyr gael eu hannog i gymryd risgiau, dysgu o gamgymeriadau, a pharhau gyda'u datblygiad ieithyddol. Mae cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn sicrhau bod mewnbwn iaith yn ystyrlon ac yn berthnasol, gan ysgogi dysgwyr i ymgysylltu mewn ffordd ddilys â disgwrs. Mae arferion trawsieithu yn dilysu repertoire llawn dysgwyr, gan ganiatáu iddynt adeiladu gwybodaeth mewn ffordd hyblyg ar draws ieithoedd, tra bod y sgaffaldu yn rhoi'r gefnogaeth strwythuredig y mae ei hangen ar ddysgwyr i symud ymlaen y tu hwnt i'w galluedd uniongyrchol.

Yn ganlyniad, argymhellir bod y dulliau gweithredu hyn yn cael eu hymgorffori'n llawn mewn ffordd systematig, gan eu bod, gyda'i gilydd, yn meithrin cymhwysedd ieithyddol, hyder dysgwyr, a datblygiad holistaidd. Gall Cymru nawr ymrwymo i ddatblygu'r strategaethau hyn ymhellach a'u cymhwyso gyda dealltwriaeth ddamcaniaethol ddyfnach, gan gydnabod bod eu heffaith yn ymestyn y tu hwnt i gaffael ar iaith. Trwy leoli traws-ieithrwydd a dwyieithrwydd fel arferion naturiol a phwrpasol, alinio addysgu ag egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a meithrin cydnerthedd trwy ganiatáu i ddysgwyr gymryd risgiau mewn ffordd sydd wedi'i sgaffaldu, gall addysgwyr greu amgylcheddau lle mae dysgwyr yn ffynnu yn academaidd ac yn bersonol. Mae canfyddiadau'r ddirprwyaeth yn cadarnhau bod y strategaethau hyn yn effeithiol ac, yn fwy na hynny, eu bod yn hanfodol, ac y bydd parhau i'w cymhwyso yn cryfhau dyluniad addysgegol ac yn hyrwyddo addysg gynhwysol, sydd â ffocws ar y dyfodol.

Cyfeiriadau

Bruner, J.S. (1983) *Child's talk: Learning to use language*. Efrog Newydd: Norton.

Chaiklin, S. (2003) 'The zone of proximal development in Vygotsky's analysis of learning and instruction', yn Kozulin, A., Gindis, B., Ageyev, V.S. a Miller, S.M. (gol.) *Vygotsky's educational theory in cultural context*. Caergrawnt: Cambridge University Press, tt. 39–64.

Chomsky, N. (1965) *Aspects of the theory of syntax*. Caergrawnt, MA: MIT Press.

Duan, S., Han, X., Li, X. a Liu, H. (2024) 'Unveiling student academic resilience in language learning: A structural equation modelling approach', *BMC Psychology*, 12, erthygl 177.

Erlam, R. (2003) 'The effects of deductive and inductive instruction on the acquisition of direct object pronouns in French as a second language', *The Modern Language Journal*, 87(2), tt. 242–260.

Erlam, R. (2006) 'Elicited imitation as a measure of L2 implicit knowledge: An empirical validation study', *Applied Linguistics*, 27(3), tt. 464–491.

- Erlam, R., Philp, J. a Feick, D. (2021) *Teaching languages to adolescent learners: From theory to practice*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- García, O. (2009) *Bilingual education in the 21st century: A global perspective*. Malden, MA: Wiley-Blackwell.
- García, O. a Kley, T. (2016) *Translanguaging with multilingual students: Learning from classroom practice*. Efrog Newydd: Routledge.
- García, O. a Wei, L. (2014) *Translanguaging: Language, bilingualism and education*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Gibbons, P. (2015) *Scaffolding language, scaffolding learning: Teaching English language learners in the mainstream classroom*. 2il arg. Portsmouth, NH: Heinemann.
- Griffiths, C. a Soruç, A. (2021) *Individual differences in language learning: Resilience and learner strategies*. Cham: Springer.
- Liaqat, F., Islam, M., Azim, M.U. a Lodhi, A.S. (2024) 'Investigating academic resilience in learning English: An ecological context of undergraduate students', *Frontiers in Psychology*, 15, erthygl 1467544.
- Mahan, K.R. a Ruiz de Zarobe, Y. (2025) 'Scaffolding English language learners: A systematic review', yn *Handbook of Language Teacher Education*. Cham: Springer, tt. 693–725.
- Piaget, J. (1970) *Psychology and pedagogy*. Efrog Newydd: Viking Press.
- Rogoff, B. (1990) *Apprenticeship in thinking: Cognitive development in social context*. Efrog Newydd: Oxford University Press.
- Skinner, B.F. (1957) *Verbal behavior*. Efrog Newydd: Appleton-Century-Crofts.
- St George's Nursery (2025) *A child-centred curriculum approach backed by leading theories*. Ar gael ar: <https://stgeorgesnursery.com/a-child-centred-curriculum-approach-backed-by-leading-theories> (Darllenwyd: 1 Rhagfyr 2025).
- The Bell Foundation (2025) *Scaffolding for EAL learners*. Ar gael ar: <https://www.bell-foundation.org.uk/resources/great-ideas/scaffolding> (Darllenwyd: 3 Rhagfyr 2025).
- Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Caergrawnt, MA: Harvard University Press.
- Wood, D., Bruner, J.S. & Ross, G. (1976) 'The role of tutoring in problem solving', *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 17(2), tt. 89–100.